**Gwasanaeth fer**
**5 Tachwedd 2023**

Helo, gwasanaeth fer sydd heddi [***], ymbach yn eclectig - fel glywn bytiau gan Wenallt, T Llew Jones, Dic Jones, Philip Doddridge a Gomer, Dafydd ap Gwilym a Dietrich Bonhoeffer. Y thema yw gras, a dangos gras â threigl amser. Gobeithio cewn ni gyd rhyw fendith ohoni.

**PrisDisgyblaeth**
(20231104)

Cans fyrdd yw'r ffyrdd at urddas bywiol lith
Camau dith cymdeithas;
Cymuno'n wên cymwynas:
Gorau greddf byw'r gwir â gras.

(Darllen mwy am Bonhoeffer.)

Gras

Gras, O'r fath beraidd sain,
i'm clust hyfrydlais yw:
gwna hwn i'r nef ddatseinio byth,
a'r ddaear oll a glyw.

Gras gynt a drefnodd ffordd
i gadw euog fyd;
llaw gras a welir ymhob rhan
o'r ddyfais hon i gyd.

Gras nododd f'enw i
Yn Llyfr Bywyd Duw;
A gras a'm rhoddodd i i'r Oen,
Fu farw im gael byw.

Gras ddaeth â'm traed yn ôl
i lwybrau'r nefoedd lân;
rhydd gymorth newydd im bob awr
i fyned yn y blaen.

Gras ddysgodd weddi im,
A thoddi nghalon ddu,
Gras gadwodd f'enaid hyd yn hyn,
A byth ni'm gollwng i.

Gras a gorona'r gwaith
draw mewn anfarwol fyd;
a chaiff y clod a'r moliant byth
gan luoedd nef ynghyd.

(PHILIP DODDRIDGE, 1702-51 cyf. GOMER, 1773-1825 Caneuon Ffydd 161)

Hydref

Hen wraig y tymhorau ydwyt,
Ar waethaf pob gwadu ffôl,
Er tlysni'r breichledau melyn
A lliwiau dy barasol.

Hen wraig y tymhorau ydwyt,
Hen ladi anghynnes flêr,
Ar waetha'r dyfal ymbicio
A swyn dy aroglau pêr.

Hen wraig y tymhorau ydwyt
A'th ruddiau'n rhychiog a chrîn,
A chlog dros lwydni di-angerdd
Yw'r minlliw o gochliw'r gwin.

Hen wraig y tymhorau, bellach
Rho heibio dy ffugio ffôl,
Mae hagrwch dy henaint yn amlwg
Drwy'r tyllau'n dy barasol.

(T Llew)

Cynhaeaf

Pan ddelo'r adar i gynnar ganu
Eu halaw dirion i'm hail hyderu,
A pha ddaw'r amser i'r hin dyneru,
I braidd eni ŵyn, i briddyn wynnu,
Af innau i gyfannu - cylch y rhod
Yno i osod a'r ddôl yn glasu.

A rhof fy ngofal i ddyfal ddofi
Gerwinder cyson gywreinder cwysi,
I roi yn waddod ei chyfran iddi
O'r wledd y llynedd a roes i'm llonni;
Y ddôl a'm cynhaliodd i - a'i lluniaeth,
I hadu'i holyniaeth hyd eleni.

Lle bu nhadau gynt yn rhwymyn trymwaith
Yn cerdded tolciau ar ddiwyd dalcwaith
Mae'r pridd yn ir gan hen gerti'r gwrtaith,
Ac yn llifeirio gan eu llafurwaith,
Ac mae cloddiau goreugwaith - eu dwylo
Eto yn tystio i'w saff artistwaith.

(Dic Jones)

Noson olau

Pynciau afrwydd drwy'r flwyddyn
A roes Duw i rusio dyn.
Nid eiddo serchog diddim
Nos yn rhydd, na dydd na dim.
Neud gwedy gwydn o gythrudd
Nid nes lles, neud nos a'i lludd.
Neud ofer brig llawer llwyn,
Neud wyf glaf am dwf gloywfwyn.
Ni lefys dyn hael Ofydd,
Ei brawd wyf, i'w bro y dydd.
Na bydd mawr, gwn, y budd mau
Na sâl, tra bo nos olau.

(Dafydd ap G)

Amser

Creulon grwn ydyw'r cloc sydd ar y silff-ben-tân,
Crynder haul a lloer a holl wyddoniaeth y nef,
A'n bywyd bitw bach, er ein swn a'n ffrwst a'n ffrost Ond symud mud y bysedd ar ei grynder ef.

O'r groth y daethom, tan unbennaeth gyffredinol ei bendil bach,
Ac ar amnaid ei fys i'r bedd y syrthiwn pan ddelo'r awr:
A rhwng y bysedd hyn hefyd y mae Natur yn hau, medi a marw:
Gwareiddiadau yn codi, a theyrnasoedd yn syrthio i lawr.

Yn y Calendr Efengylaidd sydd yn hongian oddi tano ef ar y wal
Y mae amser yn symud fel llinell o ris i ris;
A thrwy Ei daith o'r nef i'r groth, ac o'r groes i fynwes Ei
Dad
Fe'n codir ninnau o'r cylch, uwchlaw unbennaeth y bys.

(Gwenallt)

Gras

Gras **rhad** (neu gras tsiêp) yw'r gras a roddwn i ni ein hunain. Gras rhad yw pregethu maddeuant heb ofyn edifeirwch, bedydd heb ddisgyblaeth eglwysig, cymun heb gyffes, iechydwriaeth heb gyffes bersonol. Gras rhad yw gras heb ddysgyblaeth, gras heb y groes, gras heb Iesu Grist byw ac yn y cnawd.

Gras **drud** (neu gras costus) yw’r efengyl y mae’n rhaid ei cheisio dro ar ôl tro, y rhodd y mae’n rhaid gofyn amdani, y drws y mae’n rhaid i ddyn gnocio arno. Mae gras o’r fath yn ddrud oherwydd ei fod yn ein galw i ddilyn, a gras ydyw am ei fod yn ein galw i ddilyn Iesu Grist. Y mae yn ddrud am ei fod yn costio dyn ei einioes, a gras ydyw am ei fod yn rhoddi i ddyn yr unig wir fywyd. Y mae

yn ddrud am ei fod yn condemnio pechod, a gras ydyw am ei fod yn cyfiawnhau y pechadur. Yn fwy na dim, mae'n ddrud oherwydd fe gostiodd i Dduw fywyd ei Fab.

(O Bris Disgyblaeth gan B)

Cofeb Y Dioddefaint

Ni all unrhyw ddyn yn y byd i gyd newid y gwir. Ni all rhywun ond chwilio am y gwir, dod o hyd iddo a'i wasanaethu. Y mae y gwir yn mhob man.

(Gan B, o gerflun i'w gofio gan Edith Breckwoldt yn Hamburg)

Salm

"Mor brydferth yw dy breswylfeydd, O ARGLWYDD y Lluoedd. Yr wyf yn hiraethu, yn dyheu hyd at lewyg am gynteddau'r ARGLWYDD; y mae'r cyfan ohonof yn gweiddi'n llawen ar y Duw byw. Cafodd hyd yn oed aderyn y to gartref, a'r wennol nyth iddi ei hun, lle mae'n magu ei chywion, wrth dy allorau di, O ARGLWYDD y Lluoedd, fy Mrenin a'm Duw.

Gwyn eu byd y rhai sy'n trigo yn dy dŷ, yn canu mawl i ti'n wastadol. Gwyn eu byd y rhai yr wyt ti'n noddfa iddynt, a ffordd y pererinion yn eu calon. Wrth iddynt fynd trwy ddyffryn Baca fe'i cânt yn ffynnon; bydd y glaw cynnar yn ei orchuddio â bendith. Ânt o nerth i nerth, a bydd Duw y duwiau yn ymddangos yn Seion. O ARGLWYDD Dduw'r Lluoedd, clyw fy ngweddi; gwrando arnaf, O Dduw Jacob.

Edrych ar ein tarian, O Dduw; rho ffafr i'th eneiniog. Gwell yw diwrnod yn dy gynteddau di na mil gartref; gwell sefyll wrth y drws yn nhŷ fy Nuw na thrigo ym mhebyll drygioni. Oherwydd haul a tharian yw'r ARGLWYDD Dduw; rhydd ras ac anrhydedd. Nid atal yr ARGLWYDD unrhyw ddaioni oddi wrth y rhai sy'n rhodio'n gywir. O ARGLWYDD y Lluoedd, gwyn ei fyd y sawl sy'n ymddiried ynot."

Y Salmau 84:1-12 BCND
https://bible.com/bible/394/psa.84.1-12.BCND

Gweddi

Diolchwn am y cyfle i ddod at ein gilydd unwaith eto [pwy, yn lle, pryd]

Gweddïwn dros bawb sydd angen cymorth [e.e]. Cofiwn am bawb sy'n dioddef, pawb sy'n poeni, pawb sydd o dan anfantais.

Diolchwn i bawb sy'n cynig cymorth i eraill.

Chwiliwn am y nerth a'r gallu i drin pawb yn deg.

Diolchwn yn yr un modd am y rheini sydd ddigon doeth i geisio gweld y gwirionedd drwy'r anwiredd.

Rŷn ni'n gwybod ein bod yn gwneud camsyniadau a phenderfyniadau gwael drwy'r amser. Gweddïwn am y nerth a'r gallu i wneud dewisiadau gwell, ac i faddau i eraill.

Rho’r weledigaeth i ni gael profi bywyd a’r byd yn ei holl rhyfeddod. Rho’r nerth i ni fyw bywyd Cristnogol da, ac i rannu’n ffydd a’n daliadau ag eraill yn dirion ond yn gadarn. I fyw â gras.

Gofynwn hyn yr enw’r Un sy’n rhoi’r cyntaf yn olaf, a’r olaf yn gyntaf. A-men

Y Cymun

Y mae'r Cenacl ar ben Mynydd Seion
Yng Nghaersalem Israel yn agos at Feddgell y Brenin Dafydd,
Fel y gwelir yn araith Pedr yn Llyfr yr Actau,
A'r fan hon, yn ol pob tebyg, yr oedd yr oruwchystafell
Ac nid lle mae Eglwys Syriaidd San Marc.
Beth bynnag am hynny, y Swper sydd yn bwysig, ac nid y fan:
Yn y Swper cyntaf fe welwn y bara ar y ddysgl
A'r gwin coch yn y cwpan
A'r Meseia yn bendithio'r ddau.
Ond Gwyl y Pasg oedd y noson honno
I gofio am y genedl yn gado'r Aifft ac yn cerdded i Ganaan.
Ond yr oeddynt hwy yn lladd oen, ac yn ei rostio,
Ac yn cofio am y gwaed ar yr ystlysborth.
Nid oedd oen rhost yn y Swper cyntaf.
Y Meistr, nid yw'r Pasg yn Basg heb oen.

Yn y Cymun cyntaf ar ol y Croeshoelio
Yr oedd ar y ddysgl fara,
Yn y cwpan y gwin coch,
Ac yr oedd Oen wedi'i ladd ar y bryn:
Yr Oen a droes y gwin yn waed,
Y bara yn gnawd briw,
A'r Hen Gyfamod yn Gyfamod Newydd.
Ydyw, Arglwydd, y mae'r Swper yn gyfan;
Y bara, y gwin a'r Oen: y cwbl ynghyd:
'Yr Oen sydd yn tynnu ymaith bechodau'r byd."

(Gwenallt)

**PrisDisgyblaeth**
(20231104)

Cans fyrdd yw’r ffyrdd at urddas bywiol lith
Camau dith cymdeithas;
Cymuno’n wên cymwynas:
Gorau greddf byw’r gwir â gras.

(Darllen mwy am Bonhoeffer.)

Y Fendith